Adroddiad ar

Ysgol Y Bannau

Penlan
Aberhonddu
Powys
LD3 9SR

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Y Bannau

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Y Bannau |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Powys |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 94 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 85 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 21.7%) | 7.6% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 9.2%) | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 22.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2019 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 05/02/2018 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/06/2026 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol y Bannau yn ysgol hapus, ofalgar a chynhwysol lle mae lles disgyblion a staff wrth wraidd ei gwaith. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir a phwrpasol ac yn rhannu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Caiff ei chefnogi gan dîm ymroddgar o staff sy'n meithrin perthnasoedd cynnes a pharchus â disgyblion. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a chroesawgar lle mae disgyblion yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gwybod ble i gael cymorth. Mae'r ysgol yn elwa ar gefnogaeth gref gan rieni, llywodraethwyr a'r gymuned.

Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i ddarparu cwricwlwm diddorol sy'n ennyn brwdfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae disgyblion yn cyfrannu'n werthfawr at gynllunio eu dysgu ac yn cynnig syniadau creadigol sy'n helpu i lunio profiadau perthnasol a difyr. Mae llawer o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn. Nid yw'r profiadau dysgu bob tro'n herio ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar cadarn yn Gymraeg a Saesneg ac yn magu hyder a datblygu geirfa gynyddol gyfoethog dros amser. Mae medrau darllen y rhan fwyaf yn gryf, ac erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, maent yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu addas ac yn ysgrifennu'n hyderus ar draws ystod o ffurfiau. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i gymhwyso'r medrau hyn ar draws y meysydd dysgu bob amser wedi eu trefnu'n ddigon cydlynus. Mae llawer yn datblygu medrau mathemateg priodol, ond anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer monitro ansawdd gwaith yr ysgol. Er hyn, nid yw'r prosesau bob amser yn ddigon miniog i werthuso effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion yn effeithiol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn dangos caredigrwydd a chwrteisi at eraill. Maent yn cyfrannu'n werthfawr at fywyd yr ysgol a'r gymuned leol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer lles, datblygiad personol ac anghenion dysgu ychwanegol yn gryf ac yn cefnogi disgyblion yn effeithiol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1 Sicrhau bod gweithgareddau monitro’n canolbwyntio’n agosach ar effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion

A2 Datblygu’r cwricwlwm i sicrhau ei fod yn cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ysgrifennu a rhifedd yn adeiladol ar draws y meysydd dysgu

A3 Sicrhau bod profiadau dysgu’n herio disgyblion yn briodol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol y Bannau yn ysgol hapus a chefnogol sy’n gosod pwyslais amlwg ar les disgyblion a staff ac ar feithrin cysylltiadau cryf â’r gymuned leol. Mae’r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir a phwrpasol ac mae hi’n rhannu’r nod o ‘Gyd-ddysgu i greu’r dyfodol’ yn effeithiol gyda staff, disgyblion a rhieni.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel ohoni’i  hun ac eraill. Caiff ei chefnogi gan dîm o staff ymroddgar sy’n gweithio’n ddiwyd i gefnogi lles a chynnydd disgyblion. Maent yn meithrin perthnasoedd gweithio cynnes a pharchus â disgyblion. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfrannu’n gryf at y diwylliant cadarnhaol a’r amgylchedd gofalgar a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth.

Mae staff yn cydweithio’n fwriadus i ddarparu cwricwlwm sy’n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae disgyblion yn cyfrannu’n frwdfrydig at ddylunio’r cwricwlwm trwy gynnig syniadau dychmygus a doeth ynghylch beth byddent yn hoffi ei ddysgu. Mae athrawon yn cyflwyno ystod addas o brofiadau dysgu sy’n diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn bwrpasol, ar y cyfan. Dros amser, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel a’r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau o’u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid yw’r profiadau dysgu yn herio ychydig o ddisgyblion yn ddigon effeithiol.

Ar y cyfan, mae cyflymder priodol i’r sesiynau dysgu. Mae athrawon yn modelu’r dysgu’n bwrpasol ac maent yn fodelau ieithyddol cryf. Mae disgyblion yn ymateb yn dda ac yn defnyddio iaith briodol wrth drafod cysyniadau a chynnig esboniadau. Mae athrawon yn defnyddio ystod addas o ddulliau holi i adalw dysgu blaenorol a chadarnhau dealltwriaeth disgyblion. Yn yr arferion gorau, mae holi treiddgar yn annog a sbarduno disgyblion i ystyried eu dysgu’n feirniadol. Nid yw adborth athrawon yn cefnogi disgyblion i wella eu gwaith yn ddigon cyson. Mae agweddau’r rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn gadarn ac mae eu hymddygiad yn dda. Maent yn ymgolli’n naturiol yn eu profiadau dysgu ac yn canolbwyntio’n briodol ar eu tasgau. Maent yn gwrtais â’i gilydd ac oedolion ac yn ymdrin â’i gilydd gyda charedigrwydd ac anwyldeb.

Er bod canran sylweddol o ddisgyblion yn dod o gartrefi lle na siaredir y Gymraeg, mae’r rhan fwyaf yn caffael medrau siarad a gwrando da dros amser. Wrth iddynt symud drwy’r ysgol, mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu geirfa a’u hyder yn gynyddol wrth siarad yn y Gymraeg a’r Saesneg. Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Erbyn brig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith, gan amrywio’u lleisiau i ennyn diddordeb y gwrandäwr yn effeithiol.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn addas. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau ffurfio geiriau a brawddegau syml yn briodol. Mae’r disgyblion hynaf yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus, gan ddangos dealltwriaeth briodol o ystod o ffurfiau ysgrifenedig. Er hyn, nid yw’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu ar draws y meysydd dysgu wedi eu cynllunio’n ddigon cydlynus.

Dros amser, mae’r ddarpariaeth yn cefnogi llawer o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau mathemateg yn addas. Yn gyffredinol, anghyson yw’r cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd yn bwrpasol ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau digidol. Mae ymwybyddiaeth disgyblion o sut i weithio’n ddiogel ar-lein yn gadarn.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod briodol o fedrau artistig, creadigol a chorfforol yn bwrpasol. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn rheoli eu symudiadau’n gynyddol fedrus ac yn meithrin eu hyder i berfformio’n llwyddiannus wrth ddawnsio gwerin.

Mae disgyblion yn aelodau o ystod briodol o grwpiau a phwyllgorau ac yn cyfrannu’n addas at fywyd yr ysgol. Maent yn ymfalchïo yn eu rolau ac yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Er enghraifft, mae disgyblion yn arwain a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol gwerthfawr, gan gynnwys gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi yn Aberhonddu. Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at hyrwyddo’r Gymraeg ac at gryfhau ymdeimlad disgyblion o berthyn i’w cymuned leol, yn ogystal â datblygu medrau pwysig fel cydweithio, trefnu a chyfathrebu.

Trwy gyfnodau myfyrio pwrpasol a ddarperir fel mewn gwasanaethau ac yn y corneli lles, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o’u hemosiynau a sut i hunanreoli eu teimladau. Mae’r ddarpariaeth yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o wahanol grefyddau yn effeithiol ac yn meithrin medrau gwerthfawr fel goddefgarwch a pharch at eraill. Hyrwyddir y diwylliant, treftadaeth a’r iaith Gymraeg yn effeithiol drwy weithgareddau bwriadus fel eisteddfod yr ysgol, ac ymweliadau â safleoedd hanesyddol perthnasol.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion ag ADY yn gadarn. Mae’r staff yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus. Mae hyn yn eu cefnogi i adnabod anghenion disgyblion yn gynnar a, lle bo’n briodol, i ddarparu rhaglenni cefnogi pwrpasol sy’n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae staff yn cydweithio’n dda â rhieni ac ystod o asiantaethau allanol er mwyn adolygu cynnydd ac addasu’r ddarpariaeth yn fwriadus, yn ôl y gofyn.

Mae’r pennaeth wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer monitro ansawdd y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod addas o dystiolaeth er mwyn adnabod ychydig o

gryfderau a meysydd i'w gwella. Er hyn, nid yw'r prosesau arfarnu bob amser yn ddigon miniog ac nid ydynt yn nodi camau gweithredu yn ddigon penodol.

Yn gyffredinol, mae trefniadau'r ysgol ar gyfer monitro perfformiad staff yn effeithiol. Mae gweithgareddau dysgu proffesiynol pwrpasol, gan gynnwys ymweld ag ysgolion cyfagos i rannu arferion effeithiol, yn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r ysgol, blaenoriaethau cenedlaethol ac anghenion datblygu staff unigol yn fwriadus.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn adnabod y gymuned mae'r ysgol yn ei gwasanaethu yn dda. Maent yn cynnig cefnogaeth ystyrlon i'r pennaeth a'r staff. Mae'r llywodraethwyr yn dechrau ymgymryd ag ychydig o weithgareddau monitro sy'n eu cefnogi i adnabod rhai o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn ofalus.

Mae'r cysylltiadau â rhieni yn gryf. Mae 'cyfeillion yr ysgol' yn hynod gefnogol i'r ysgol. Maent yn trefnu ystod eang o weithgareddau er mwyn codi arian sy'n cyfrannu at wella amgylchedd ac adnoddau'r ysgol, fel datblygu'r ardal wyllt. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi lles a chynnydd disgyblion yn bwrpasol, yn ogystal â meithrin ymdeimlad cryf o berthyn i'r gymuned glòs sy'n nodweddiadol o'r ysgol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli'r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae'r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Mae cynllun wedi ei gytuno gyda'r awdurdod lleol i adfer y diffyg ariannol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/08/2026